**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2023 am 5.00pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd L Ellis
Y Cynghorydd K Johnson
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd A O Rogers
Y Cynghorydd T Williams

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr O Williams, Uwch Gyfreithiwr – Materion Ymgyfreitha

## 11 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G. Holmes a J. Turner.

## 12 DATGAN BUDDIANT

**PENDERFYNWYD –** Yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau'r Cyngor, cafodd y datganiad o fuddiant personol canlynol ei wneud ynglŷn â'r agenda:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick mewn perthynas ag eitemau 4, 6 a 7 yr agenda, "Rydw i'n adnabod rhai o'r ymgeiswyr".

## 13 DEDDF HAWLIAU DYNOL A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**14 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2023 yn rhai cywir.

**15 TRAFOD TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 22.05.23 – 09.07.23**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 22 Mai 2023 a 9 Gorffennaf 2023 i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**16 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**17 CRYNODEB GORFODI (GAN GYNNWYS DATA APELIADAU/ERLYNIADAU) AR GYFER Y CYFNOD: 22.05.23 – 09.07.23**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 22 Mai 2023 a 9 Gorffennaf 2023.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**18 CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 22.05.23 – 09.07.23**

Rhannodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad â'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 22 Mai 2023 a 9 Gorffennaf 2023.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**19 MATERION BRYS**

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch nifer y Trwyddedau Tacsi Hurio Preifat sy'n cael eu cyflwyno i Gyngor Wolverhampton.

Yn dilyn sgyrsiau, **PENDERFYNWYD** trafod hyn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.21pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**